



Cymeradwywyd 20 Gorffennaf 2021

Diben y Pwyllgor

Mae'r pwyllgor yn un anstatudol a sefydlwyd i gynghori'r Bwrdd ar faterion ariannol, adnoddau dynol ac isadeiledd (gan gynnwys TGCh ac Ystadau) ac i fonitro cynnydd prosiectau mawrion.

1. Prif Gyfrifoldebau

- 1.1 Archwilio perfformiad ariannol y Coleg, gan gynnwys monitro ac archwilio cyfrifon rheoli, rhagolygon a chyllideb.
- 1.2 Awdurdodi dilead dyledion difrifol neu amheus yn unol â'r Memorandwm Ariannol.
- 1.3 Cymeradwyo polisiâu Haen 2 perthnasol sy'n cael eu dosbarthu gan y Bwrdd.
- 1.4 Adolygu a chymeradwyo'r gwaith ffurfiol o fabwysiadu Cytundebau ar y Cyd a drafodwyd yn genedlaethol, sy'n cyd-fynd â Chytundeb Cyffredin Cenedlaethol.

2. Cyfrifoldebau Ymgynghorol

- 2.1 Ystyried awgrymiadau a'u gwneud ar unrhyw fenthyciad, cyfalaf neu wariant sylweddol arall arfaethedig.
- 2.2 Cynghori/gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar bob agwedd ar y strategaeth Arianno, Staff/AD, Ystadau a TGCh.
- 2.3 Cynghori'r Bwrdd ar bolisiâu Haen 1 perthnasol.
- 2.4 Adolygu trefniadau yswiriant y Coleg yn flynyddol a darparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd.

3. Cyfrifoldebau Arolygol

- 3.1 Monitro trefniadau pensiwn staff y Coleg, gan gynnwys archwilio adroddiadau blynyddol y cynllun pensiwn a phrисиadau actiwaraid.
- 3.2 Monitro iechyd a diogelwch yn y Coleg ac adolygu adroddiad blynyddol ar iechyd a diogelwch.
- 3.3 Monitro'r gwaith o lywodraethu gwybodaeth a mesurau seiberddiogelwch o fewn y Coleg.

3.4 Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a derbyn adroddiadau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y Coleg.

3.5 Monitro cynnydd ar brosiectau cyfalaf mawr.

4. Materion ychwanegol

4.1 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn gweithredu fel Clerc i'r pwyllgor.

4.2 Bydd y pwyllgor yn ymdrin ag unrhyw fater arall y cyfeirir ato gan y Bwrdd.

4.3 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar weithgareddau'r pwyllgor i'r Bwrdd.

4.4 Bydd y Swyddog Llywodraethu yn sicrhau bod copïau o'r cofnodion (neu gofnodion drafft) yn cael eu dosbarthu i bob aelod o'r Gorfforaeth er gwybodaeth ar gyfer y cyfarfod Bwrdd priodol nesaf.

4.5 Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n FLYNYDDOL.

Aelodaeth:

7

Yn cynnwys: 5 Llywodraethwr Annibynnol
1 Llywodraethwr Staff Cefnogi
Busnes
Pennaeth/Prif Weithredwr

Mae gan y pwyllgor hawl i gael cyngor annibynnol a phroffesiynol gan unigolion nad ydynt yn aelodau sydd â phrofiad neu arbenigedd perthnasol, a'u gwahodd i fynychu ei gyfarfodydd.

Cworwm:

50% - i gynnwys lleiafswm o 2 Llywodraethwr annibynnol

Amllder y cyfarfodydd:

4 gwaith y flwyddyn